# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

**Y Cynghorydd Lyn Walters** **Ward:Hengastell**

## Plaid: Plaid Geidwadol Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben **30 Ebrill 2018.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Hengastell ar 4 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol 52 o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill rydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** drwy ddilyn y ddolen hon.

**Gweithgarwch Etholaeth**

Fel cynghorydd newydd fy ethol, fy nod yw bod yn hawdd mynd ati ac yn gefnogol i etholwyr, gan helpu i fynd i'r afael â phryderon a godir gyda mi.

Yn ystod y chwe mis cyntaf, roedd y rhan fwyaf o bryderon a godwyd yn ymwneud â diffygion difrifol gyda'r contract gwastraff newydd ac yn anffodus mae'r problemau hyn yn parhau er eu bod yn lleihau. Byddaf yn parhau i ganolbwyntio ar bryderon trigolion yn yr ardal hon.

Yn unol â'm haddewidion maniffesto, rwyf wedi cymryd toriad yn fy lwfans cynghorydd ac yn parhau i weithio gyda swyddogion a chynghorwyr eraill i ostwng y terfyn cyflymder ar yr A48 a gwella diogelwch ar y ffyrdd.

Ers cael fy ethol, rwyf wedi bod i bob un o gyfarfodydd PACT Hengastell ac rwyf wedi cynnal cymhorthfa ar y cyd â'n AC lleol, Suzy Davies a'm cyd-aelod, y Cynghorydd Matthew Voisey.

Yn ddiweddar, cynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol ar gyfer parcio trigolion, sy'n bwnc

dadleuol. Rwyf wedi curo ar ddrysau llawer o drigolion er mwyn sicrhau eu bod yn deall pwysigrwydd ymateb a chael eu pryderon wedi'u cofnodi.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

O'r diwrnod cyntaf un, rwyf wedi bod yn codi'r diffyg mannau newid / toiledau i'r anabl ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar gyfer y rhai ag anableddau difrifol a'u gofalwyr. Drwy weithio ar y cyd â'r Aelod Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a'm cyd-aelod, y Cynghorydd Carolyn Webster, rydym wedi nodi safle priodol yn adeilad Halo. Byddaf yn parhau i weithio tuag at agor y cyfleuster hwn cyn gynted â phosibl er mwyn cynorthwyo trigolion i gael mynediad i ganol y dref a chyfleusterau hamdden.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Rwyf hefyd yn cynrychioli ward Hengastell ar Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr ac felly rwy'n gallu defnyddiol dull cyfannol ar draws pob mater sy'n ymwneud â thrigolion lleol.

**Y Cynghorydd Lyn Walters:** **Dyddiad: 28 Mai 2018**